# Cynllun Plismona Yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig 2025-27



# Rhagair y Cadeirydd

Dechreuaf drwy gydnabod ymrwymiad a chyfraniad pob un o swyddogion yr heddlu, pob un o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a phob aelod o staff ym mhob adran a rhanbarth o'r Heddlu sy'n gweithio'n galed, bob dydd, i gefnogi a diogelu'r rhai hynny sy'n gweithio ac yn teithio ar y rheilffyrdd. Rydym wedi cael ein hatgoffa droeon drwy gydol y flwyddyn am y risgiau y maent yn eu cymryd a'r aberthau y maent yn eu gwneud wrth weithio i ddiogelu'r cyhoedd. Diolch i chi i gyd am eich gwasanaeth.

Rydym wedi bwrw ati i gynnal yr adolygiad blynyddol o gynllun plismona Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig mewn ffordd wahanol y tro hwn. Drwy ymgynghori â'r diwydiant a rhanddeiliaid, gan gadw blaenoriaethau'r llywodraeth ac adborth gan y cyhoedd mewn cof, rydym wedi symleiddio ein blaenoriaethau er mwyn canolbwyntio ar y materion hynny sy'n sail i hyder y cyhoedd a staff y rheilffyrdd.

Drwy gydol 2025/26 a thu hwnt, bydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn chwarae rhan hanfodol i sicrhau bod y rheilffyrdd yn ffordd ddiogel a chynaliadwy o deithio, gan ganolbwyntio ar y tair blaenoriaeth lefel uchel i'r Heddlu cyfan a nodir yn y cynllun hwn. Bydd ffocws parhaus ar fynd i'r afael â throseddau niwed mawr a ffactorau risg; sicrhau bod y rhwydwaith yn gweithredu'n arferol drwy leihau achosion o darfu ar wasanaethau ac oedi; a pharhau i atal a lleihau trais yn erbyn menywod a merched. Mae gan bawb ran i'w chwarae wrth gyflawni'r blaenoriaethau hyn, boed hynny ar y rheng flaen neu mewn rolau cefnogol a galluogol ym mhob rhan o'r sefydliad.

Gyda hyder y cyhoedd yn chwarae rhan greiddiol, a chan barhau i ganolbwyntio ar ymddiriedaeth a chyfreithlondeb ym maes plismona, bydd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn rhoi sylw i effeithiau allanol ein gwaith yn ogystal â'n diwylliant sefydliadol mewnol. Caiff y blaenoriaethau lefel uchel i'r Heddlu cyfan eu hategu gan Gynlluniau Gweithredu Diogelwch y Rheilffyrdd is-ranbarthol lleol sy'n nodi'r gweithgareddau a'r mentrau sydd ar waith yn lleol i ymdrin â materion neu fannau problemus penodol. Bwriedir i'r cynlluniau hyn annog, cefnogi a galluogi trefniadau cydweithio a datrys problemau parhaus rhwng partneriaid lleol.

Yn erbyn cefndir heriol cynlluniau ar gyfer diwygio sawl sector, rhaid i Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig fod yn effro i'r heriau sy'n wynebu'r sector plismona a sector y rheilffyrdd, wrth symud i berchnogaeth gyhoeddus ac o ystyried y pwysau o hyd ar gyllid cyhoeddus. Er bod teithio ar drenau ledled Prydain Fawr yn brofiad diogel i'r mwyafrif helaeth o bobl ac na fyddant yn wynebu unrhyw ddigwyddiadau, mae mwy i'w wneud i wella profiad staff a chwsmeriaid, ac i ddiogelu ein swyddogion a'n staff sy'n barod i wynebu niwed.

Hoffwn ddiolch i'r Prif Gwnstabl Lucy D'Orsi am ei hymroddiad di-ffael i arwain yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn unol â gwerthoedd craidd yr Heddlu, ac i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r cynllun hwn. Edrychaf ymlaen at y cynnydd a gaiff ei wneud yn ystod y flwyddyn hon a thu hwnt.

**Ron Barclay-Smith**
Cadeirydd

**E-bost**
Ron.Barclay-Smith@btp.police.uk

**Dilynwch**
@BTPAuthority





# Cyflwyniad y Prif Gwnstabl

Wrth i ni lansio ein Cynllun Plismona ar gyfer 2025-2027, mae ein diben yn glir ac rydym yn parhau'n benderfynol o gyflawni'r blaenoriaethau a bennwyd gennym. Yn ogystal â nodi ein ffocws, mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y byddwn yn gweithio – ar y cyd, mewn ffordd ddeallus a chan ddangos uniondeb – i gadw pobl yn ddiogel ac i gynnal hyder y cyhoedd ar reilffyrdd Prydain.

Mae ein nodau craidd yn parhau'n gyson: diogelu teithwyr a staff, atal troseddau niwed mawr, lleihau achosion o darfu, ac ymateb mewn ffordd gadarn i achosion o drais yn erbyn menywod a merched. Nid dim ond blaenoriaethau plismona mohonynt – maent yn bethau y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl hefyd, a hynny'n gwbl briodol.

Mae'r heriau a wynebwn yn datblygu'n barhaus, ac felly rhaid i ni wneud hynny hefyd. Mae'r cynllun hwn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddull gweithredu ataliol ym mhob rhan o'r diwydiant. Rydym yn gwybod mai drwy weithio mewn partneriaeth – â chydweithwyr yn y diwydiant, y cymunedau a wasanaethir gennym, a'r rhai hynny sy'n defnyddio'r rheilffyrdd bob dydd – y cawn effaith barhaol. Boed hynny drwy well Cynlluniau Gweithredu Diogelwch y Rheilffyrdd, ymgyrchoedd ar y cyd mewn lleoliadau niwed mawr, neu batrolau gweladwy i roi sicrwydd, ein huchelgais yw creu rhwydwaith sy'n teimlo'n ddiogel ac sydd yn ddiogel.

Mae ymdrin ag achosion o drais yn erbyn menywod a merched yn parhau'n rhan greiddiol o'n dull gweithredu. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol: mae mentrau fel 'Speak Up' wedi creu sianeli ystyrlon ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau, ac wedi gwella hyder yn ein gallu i ymateb. Ond rydym yn ymwybodol na allwn laesu dwylo – mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y byddwn yn gwneud mwy: gan nodi'r rhai hynny sy'n peri risg, creu darluniau gwybodaeth cryfach, ac atal unigolion rhag troseddu cyn iddynt wneud hynny. Mae ein nod yn syml – creu amgylchedd lle nad oes cyfleoedd i droseddwyr achosi niwed.

Ni fydd pob achos o darfu ar y rheilffyrdd – boed o ganlyniad i dresmasu, fandaliaeth neu ladrata – yn cael sylw yn y cyfryngau, ond mae'n cael effaith sylweddol. Mae'n achosi oedi wrth deithio, yn peri rhwystredigaeth ac yn tanseilio hyder yn y system. Drwy ffocws o'r newydd ar leoli swyddogion yn seiliedig ar ddata a chynlluniau tarfu lleol, byddwn yn parhau i dargedu'r meysydd pwysicaf, gan leihau achosion o oedi a sicrhau bod gwasanaethau yn gweithredu'n hwylus.

Ochr yn ochr â hyn, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y bygythiad o drais difrifol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ehangach. Mae ein dull yn glir: cyfuniad cytbwys o ymyriadau cynnar, camau gorfodi manwl, a phresenoldeb plismona cryf a gweladwy. Bydd technoleg yn dal i chwarae rhan gynyddol, gan gefnogi ein gallu gweithredol a diogelwch ein pobl ar lawr gwlad.

Wrth gwrs, nid oes dim un o'r elfennau uchod yn bosibl heb ymddiriedaeth yn y bobl sy'n ei gweithredu. Mae ein hymrwymiad i'r safonau ymddygiad proffesiynol uchaf yn parhau'n gadarn. Mae menter 'Speak Up' wedi dod yn rhan annatod o'n diwylliant mewnol – gan alluogi unigolion i godi pryderon, a herio ymddygiad amhriodol. Mae'n ffordd bwerus i'n hatgoffa nad slogan yw uniondeb, ond safon i ni ei chyrraedd fel rhan o'n bywydau.

Er mwyn ateb y galw yn fwy effeithiol, rydym yn buddsoddi mewn prosesau cynllunio adnoddau doethach – gan sicrhau bod swyddogion yn y mannau y mae eu hangen fwyaf. Ac mae ein cyfrifoldeb yn mynd y tu hwnt i blismona o ddydd i ddydd. Byddwn yn parhau i chwarae rhan arweiniol o ran diogelwch gwladol a pharodrwydd at argyfyngau, gan ddysgu o ddigwyddiadau'r gorffennol i wella ein hymateb ar adegau allweddol.

Yn olaf, mae ein Prosiect Diogelwch a Phlismona Integredig yn adlewyrchu ein gweledigaeth ar gyfer dull gweithredu gwirioneddol gydgysylltiedig ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd. Roedd canlyniadau cynnar ein cynlluniau peilot yn y prif hybiau yn addawol, ac rydym bellach yn adeiladu ar y sylfaen hwnnw – gan greu dulliau plismona cyson a gweladwy â chysylltiadau di-dor ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

Mae'r cynllun hwn yn uchelgeisiol, a hynny'n gwbl briodol. Dyna yn union y mae'r cyhoedd, ein staff a'n partneriaid yn ei ddisgwyl. Rwy'n ymfalchïo o hyd yn yr ymrwymiad a welaf ym mhob rhan o'r Heddlu bob dydd – ac yn hyderus, gyda'n gilydd fel un Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, y byddwn yn parhau i ddarparu rheilffyrdd diogel a chydnerth i bawb.

**Lucy D'Orsi CVO QPM**
Prif Gwnstabl

**E-bost**
Lucy.Dorsi@btp.police.uk

**Dilynwch**
@BTPChief



# Ein Blaenoriaethau



## Hyder Teithwyr a Staff

Yn seiliedig ar ddull gweithredu ataliol drwy'r diwydiant cyfan

### Troseddau niwed mawr a diogelu pobl agored i niwed

**Byddwn yn creu amgylchedd gelyniaethus i droseddau niwed mawr, anhrefn a ffactorau risg drwy wneud y canlynol:**

- Diogelu pobl agored i niwed ac atal achosion o gamddefnyddio'r rhwydwaith at ddibenion troseddol.
- Mynd i'r afael â thrais difrifol, ymddygiad ymosodol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Gweithgarwch wedi'i dargedu i atal troseddau, anhrefn a niwed.

### Tarfu ac oedi

**Byddwn yn sicrhau bod y rhwydwaith yn gweithredu'n arferol drwy wneud y canlynol:**

- Rheoli achosion o darfu sy'n gysylltiedig â'r heddlu yn effeithiol (munudau oedi sylfaenol).
- Gweithgarwch wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n gyfrifol am achosion o darfu; tresmasu, fandaliaeth a lladrata.

### Trais yn erbyn menywod a merched

**Byddwn yn atal ac yn lleihau trais yn erbyn menywod a merched drwy wneud y canlynol:**

- Cynnal ymchwiliadau effeithiol a sensitif a rheoli troseddwyr yn gadarn.
- Gweithgarwch wedi'i dargedu i adnabod a dal y rhai hynny sy'n bwriadu troseddu.

# Dangosyddion Perfformiad Allweddol



**Er mwyn mesur cynnydd yn erbyn pob blaenoriaeth, byddwn yn monitro'r dangosyddion perfformiad canlynol***

## Creu amgylchedd gelyniaethus i droseddau niwed mawr, anhrefn a ffactorau risg

- Lefelau troseddu o ran trais (wedi'u rhannu yn ôl anafiadau difrifol a dim anafiadau), ymosodiadau ar staff rheilffyrdd a swyddogion
- Digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Amseroedd ymateb i ddigwyddiadau ar gyfer galwadau sy'n gofyn am ymateb ar unwaith a galwadau â blaenoriaeth
- Cyfraddau datrys a throseddau a ddatryswyd yn ôl y math o drosedd
- Ffurflenni argymhellion diogelu ar gyfer pobl agored i niwed (Cam-drin Domestig, Oedolion sy'n Wynebu Risg...)
- Ymyriadau sy'n achub bywyd
- Canlyniadau arolygon dioddefwyr troseddau

## Sicrhau bod y rhwydwaith yn gweithredu'n arferol

- Digwyddiadau o darfu drwy'r Heddlu cyfan a'r munudau yn ôl y categori
- Digwyddiadau o darfu a'r munudau mewn lleoliadau allweddol yn ôl y categori
- Amseroedd ymateb i ddigwyddiadau ar gyfer galwadau sy'n gofyn am ymateb ar unwaith a galwadau â blaenoriaeth
- Unigolion sydd i'w gweld yn aml ar y rhwydwaith
- Amseroedd Rheoli Ymchwiliadau i Farwolaethau
- Cyfraddau datrys a throseddau a ddatryswyd yn ôl y math o drosedd

## Atal a lleihau trais yn erbyn menywod a merched

- Lefelau troseddu o ran trais (wedi'u rhannu yn ôl anafiadau difrifol a dim anafiadau), troseddau trefn gyhoeddus a throseddau rhywiol lle mae'r dioddefwyr yn fenywaidd
- Amseroedd ymateb i ddigwyddiadau ar gyfer achosion sy'n gofyn am ymateb ar unwaith ac achosion â blaenoriaeth
- Cyfraddau datrys a throseddau a ddatryswyd yn ôl y math o drosedd (gan gynnwys dadansoddiad o brosesau ymgysylltu â dioddefwyr)
- Cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched ac Ymgyrch Soteria
- Canlyniadau arolygon dioddefwyr troseddau

*Daw'r dangosyddion a restrir o Fframwaith Perfformiad yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac nid ydynt yn cynnwys pob dangosydd

# Cyllideb ac Adnoddau





**Ar gyfer 2025/26, pennodd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gyllideb o £418.5m a ddyrennir fel a ganlyn:**




- Rhanbarth A – £208.8m
- Rhanbarth B (Trosddaearol) – £49.1m
- Rhanbarth B (Tanddaearol) – £49m
- Rhanbarth C – £54.9m
- Rhanbarth D – £11.9m
- Rhanbarth E – £41.9m Awdurdod yr
- Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig – £2.9m

## Niferoedd staff




Rhanbarth A　Rhanbarth B　Rhanbarth C　Rhanbarth D　Rhanbarth E
Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

* Mae'n bosibl y bydd y cymysgedd staffio yn newid yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion gweithredol.

** O blith ffigurau Rhanbarth B, mae 556 o swyddogion, 99 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a 45 o aelodau o staff yr heddlu yn gyflogeion TfL.

# Manylion Cyswllt Rhanbarthol

**I gael rhagor o wybodaeth am gynlluniau lleol yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, cysylltwch â:**

## Rhanbarth A

- Ditectif Brif Uwch-arolygydd Peter Fulton – Pennaeth Troseddau a Diogelu'r Cyhoedd Peter.Fulton@btp.police.uk
- Prif Uwch-arolygydd Will Jordan – Arweinydd Gweithredol William.Jordan@btp.police.uk

## Rhanbarth B

- Prif Uwch-arolygydd Chris Casey – Comander Rhanbarthol Christopher.Casey@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd Nick Sedgemore – Comander Is-ranbarthol Gogledd Lloegr Nick.Sedgemore@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd Darren Malpas – Comander Is-ranbarthol De Lloegr Darren.Malpas@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd Dominique Ioannou – Comander Is-ranbarthol Canol Lloegr Dominique.Ioannou@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd John Loveless – Ymgyrchoedd John.Loveless@btp.police.uk

## Rhanbarth C

- Prif Uwch-arolygydd Sandra England – Comander Rhanbarthol Sandra.England@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd Sue Peters – Comander Is-ranbarthol Canolbarth Lloegr Sue.Peters@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd David Rams – Comander Is-ranbarthol y Penwynion David.Rams@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd Andy Morgan – Comander Is-ranbarthol Cymru Andrew.Morgan@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd Dros Dro Andy Kermack – Comander Is-ranbarthol Gorllewin Lloegr Andrew.Kermack@btp.police.uk

## Rhanbarth D

- Prif Uwch-arolygydd Dros Dro Lorna McEwan – Comander Rhanbarthol Lorna.McEwan@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd Dros Dro Chris Shields Christopher.Shields@btp.police.uk

## Rhanbarth E

- Prif Uwch-arolygydd Dros Dro Mark Cleland – Comander Rhanbarthol Mark.Cleland@btp.police.uk

